Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

# Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2025-30

(Drafft ar gyfer ymgynghori, Rhagfyr 2024)

This item is also available in English / Mae’r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

## Beth yw'r Strategaeth Gorfforaethol?

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni ein prif flaenoriaethau yn y tymor byr a'r tymor canolig.  Mae'n strategaeth bum mlynedd, y cytunwyd arni gan y cyngor, a chaiff ei hadolygu a'i hadnewyddu o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried materion sy'n dod i'r amlwg ac er mwyn ymateb i heriau wrth iddynt godi.

Mae’r strategaeth yn cyd-fynd â rhaglen weinyddu’r Cabinet (a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2023), sy’n nodi’r nodau a’r dyheadau gwleidyddol ar gyfer y tymor gweinyddol.

Mae’r Strategaeth Gorfforaethol yn elfen hollbwysig o’n ‘llinyn aur’ (gweler tudalen 9 am ragor o fanylion).  Mae’n darparu’r fframwaith trosfwaol ar gyfer datblygu cynlluniau gwasanaeth tymor canolig manwl, cynlluniau uned (pan fônt yn briodol) a chynlluniau perfformiad a llesiant unigol yn y pen draw. Wrth wneud hynny, mae'r cyngor yn sefydlu cysylltiad clir rhwng blaenoriaethau strategol sefydliadol a chyflawni, ac mae'n cefnogi ac yn gwella dealltwriaeth o sut mae pawb sy'n gweithio i'r cyngor yn gwneud cyfraniad hanfodol i waith y sefydliad yn ei gyfanrwydd.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, mae’n ofynnol i’r cyngor gynhyrchu amcanion llesiant i ddangos y cyfraniad y bydd y cyngor yn ei wneud tuag at y nodau llesiant cenedlaethol i Gymru a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf.

Ein Strategaeth Gorfforaethol yw’r cyfrwng a ddefnyddir gan y cyngor i osod a mynegi ein hamcanion llesiant. Mae’r rhain yn bwysig, yn yr ystyr eu bod yn darparu fframwaith ar gyfer yr holl waith a wnawn, ac yn gosod y cyfeiriad ar gyfer sut y mae’r cyngor yn bwriadu gwneud gwahaniaeth o ran gwella llesiant pobl a chymunedau Sir Benfro.

## Datganiad o weledigaeth

Ein gweledigaeth fel cyngor yw ***gweithio gyda'n gilydd, gwella bywydau***. Mae'r weledigaeth hon yn nodi'n gryno yr hyn y mae'n ei olygu i weithio i Gyngor Sir Penfro, ac yn nodi ein prif ddiben fel sefydliad.

Mae rhaglen weinyddu'r Cabinet yn cyflwyno gweledigaeth tymor hwy ar gyfer y math o le yr ydym am i Sir Benfro fod yn awr ac yn y dyfodol ar gyfer ein cymunedau, ein lleoedd a'n pobl:

- Mae Sir Benfro yn lle gwych i fyw ynddo, gweithio ynddo, ac ymweld ag ef
- Mae ein pobl ifanc a'n dysgwyr yn cael addysg o ansawdd uchel
- Mae pobl sy'n agored i niwed yn cael gofal a chymorth drwy gydol eu hoes
- Mae tai priodol ar gael, sy'n hygyrch ac yn fforddiadwy
- Mae Sir Benfro yn sir sero net, sy'n arwain y ffordd o ran ynni adnewyddadwy gwyrdd a glas
- Mae llai o deuluoedd ac aelwydydd yn profi tlodi ac anghydraddoldeb
- Mae ein cymunedau yn weithgar ac yn ffynnu
- Rydym yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol drwy'r pethau yr ydym yn eu gwneud heddiw

Fel sefydliad, mae ein gwaith yn cyd-fynd â'r cynllun llesiant trosfwaol ar gyfer Sir Benfro, a gyhoeddwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro (BGC) ym mis Mai 2023, ac yn cyfrannu ato. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bartneriaeth strategol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau pwysig o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn y sir.

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd ar y cyd i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol pobl a chymunedau yn Sir Benfro. Fel un o bartneriaid statudol y Bwrdd, mae'r cyngor yn chwarae rhan arweiniol bwysig yng ngwaith y bartneriaeth. Oherwydd hyn, mae'r cyngor hefyd wedi ymrwymo i weledigaeth y Bwrdd ar gyfer Sir Benfro a'r amcanion llesiant y mae wedi'u pennu i ffurfio'r fframwaith ar gyfer ei gynllun llesiant. Gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw:

***Datgloi pŵer a photensial pobl a chymunedau Sir Benfro fel bod ein pobl yn hapus, yn iach ac yn byw'n dda, bod ein cymunedau'n garedig, yn ddiogel, yn ddyfeisgar ac yn fywiog, bod ein heconomi yn wyrdd ac yn ffynnu, a bo'n hamgylchedd wedi'i warchod ac yn well.***

Amcanion llesiant y Bwrdd yw:

- Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a hwyluso'r newid i economi wyrddach a mwy cynaliadwy
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau er mwyn datgarboneiddio, rheoli'r broses o ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng ym myd natur
- Sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel, wedi'u cysylltu, yn ddyfeisgar ac yn amrywiol

# Sir Benfro yn ei chyd-destun

## Poblogaeth

Yn 2023, poblogaeth y sir oedd 125,000, sef 3.95% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae’r boblogaeth wedi cynyddu 2% ers 2011, sef cyfradd twf sy’n llai na’r gyfradd gyfartalog ar gyfer siroedd Cymru dros y cyfnod hwn.

Rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn tyfu i oddeutu 128,482 erbyn 2033, ac i 130,196 erbyn 2043 (yn ôl y rhagamcanion diweddaraf ar sail data 2018). Mae’r gyfradd twf hon yn y boblogaeth yn llai na’r gyfradd yng nghynghorau eraill Cymru.

Mae 26% o'r boblogaeth dros 65 oed, sef y pedwerydd uchaf yng Nghymru. Dim ond 15.5% o'r boblogaeth sydd rhwng 30 a 44 oed, sef y pumed isaf yng Nghymru. Yn 2021, yr oedran canolrifol oedd 48 oed, i fyny o 42.9 oed yn 2011, ac yn uwch na Chymru yn gyffredinol.

Y disgwyliad oes ar enedigaeth ar gyfer dynion ar gyfer 2020-22 yw 78.6 oed, sef y cydradd chweched uchaf yng Nghymru. Ar gyfer menywod, y ffigur cyfatebol yw 83 oed, sydd hefyd y chweched uchaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru.

Mae tua 2.4% o boblogaeth Sir Benfro ‘ddim yn wyn’. Mae’r ffigur hwn yn codi i 2.9%, os caiff bobl o dras Sipsiwn, Teithwyr a Roma eu cyfrif.

O'r 120,200 o drigolion Sir Benfro tair oed a throsodd, mae 17.1% yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o 2.1% o gymharu â nifer y bobl a oedd yn siarad Cymraeg yn 2011.

## Lle

Mae gan Sir Benfro arwynebedd o 1,618 o gilometrau sgwâr, a hi yw'r pumed sir fwyaf yng Nghymru.  Mae ganddi 76 o bobl fesul cilometr sgwâr, sy’n debyg iawn i Sir Gaerfyrddin a thua dwbl dwysedd poblogaeth Ceredigion.  (Mae'r boblogaeth wedi'i dosbarthu'n llawer mwy cyfartal nag ydyw yn yr awdurdodau lleol cyfagos.)

Mae gan y sir lawer o ardaloedd sydd wedi’u dynodi’n ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol, gan gynnwys parc cenedlaethol (yr unig un a ddynodwyd yn barc cenedlaethol oherwydd ei nodweddion arfordirol), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a safleoedd daearegol a geomorffolegol o bwysigrwydd rhanbarthol. Mae’r sir yn gynefin i lawer o rywogaethau gwarchodedig, gan gynnwys fflora a ffawna morol a daearol.

## Trafnidiaeth a hygyrchedd

Mae cyfanswm o 2,600 o gilometrau o ffyrdd yn Sir Benfro, ac mae ychydig yn llai na 2,500 o gilometrau o’r ffyrdd hyn yn cael eu cynnal a’u cadw gan y cyngor.  Mae 47% o’r ffyrdd wedi'u dosbarthu’n ffyrdd dosbarth B ac C, 42% yn is-ffyrdd ac 11% yn ffyrdd dosbarth A (gan gynnwys cefnffyrdd). Mae’r draffordd agosaf 75 o gilometrau i ffwrdd.

Mae nifer y milltiroedd y mae cerbydau yn teithio yn Sir Benfro wedi parhau i gynyddu ers yr isafbwynt o 565.9 miliwn yn ystod y pandemig yn 2020. Yn 2023, teithiodd y traffig tua 701.6 miliwn o filltiroedd cerbyd ar hyd ffyrdd Sir Benfro, sef tua 96.2% o'r cyfartaledd a deithiwyd yn y pedair blynedd cyn y pandemig.

Mae gan Sir Benfro ddau borthladd sy'n cysylltu’r sir â Gweriniaeth Iwerddon. Teithiodd 265,000 o bobl drwy borthladd Abergwaun yn 2022. Roedd hwn yn ostyngiad o 27.2% ers 2012, ond yn gynnydd o 12.8% ers 2019 (cyn y pandemig). Yn 2022, teithiodd 215,000 o bobl drwy borthladd Penfro, sef gostyngiad o 34.7% ers 2012, a gostyngiad o 34.3% ers 2019 (cyn y pandemig).

Yn 2022, Aberdaugleddau oedd porthladd mwyaf Cymru a’r trydydd porthladd mwyaf yn y DU (yn seiliedig ar dunelli). Cafodd 38.9 o dunelli metrig o nwyddau eu trin yno yn 2022, sef 8.5% o gyfanswm y DU. Mae’r tunelli o nwyddau a gludir trwy Aberdaugleddau yn cyfrif am 72.2% o’r holl nwyddau ym mhorthladdoedd Cymru (mwy na dwy ran o dair).

Ym mis Tachwedd 2024, mae band eang ffeibr llawn bellach ar gael i 60% o’r cartrefi a’r busnesau yn Sir Benfro, sy’n sefyllfa dda o gymharu ag awdurdodau gwledig eraill. Mae hyn yn gynnydd mawr o gymharu â dim ond 5% yn 2019.

## Yr economi

Yn 2023, roedd 73.6% mewn cyflogaeth yn Sir Benfro. Roedd hyn yn ostyngiad bach o gymharu â’r flwyddyn flaenorol (73.7%), ac yn llai na’r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan (74.1%).

Dyma'r pum sector gorau yn Sir Benfro ar sail data Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth 2023 (sy’n canolbwyntio ar weithwyr): Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd (18.6%), masnach cyfanwerthu a manwerthu/ trwsio cerbydau modur a beiciau modur (16.3%), gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (16.3%), adeiladu (7%), gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn/ nawdd cymdeithasol gorfodol (7%).

Mae gan Sir Benfro yr orsaf bŵer fwyaf yng Nghymru, ac un o’r chwe phurfa olew fwyaf yn y DU. Mae’r cyfleusterau hyn wedi’u lleoli yn y Porthladd Rhydd Celtaidd (ac yn ardal Bargen Ddinesig Bae Abertawe) a thrwy’r rhain mae’r cyngor yn helpu i hwyluso’r newid i ynni sero net a sicrhau mewnfuddsoddiad sylweddol, fel yn achos Canolfan Sero Net Penfro RWE.

Yn ôl yr adroddiad twristiaeth diweddaraf gan Croeso Sir Benfro, roedd y diwydiant twristiaeth yn werth £604 miliwn y flwyddyn yn 2023, gyda 6.3 miliwn o ymweliadau. Mae twristiaeth yn cynnal tua 23% o'r swyddi yn yr economi leol.

Ym mis Mawrth 2024, roedd cyfradd Cyfrif Hawlwyr Sir Benfro (sy’n fesur o ddiweithdra) yn 3.4% o’r boblogaeth sy’n weithgar yn economaidd – ychydig yn llai na’r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan yn ystod yr un cyfnod.

O 2024 ymlaen, roedd y cyflog wythnosol gros canolrifol yn Sir Benfro yn £674.80 ar gyfer gweithwyr amser llawn, sef y trydydd ar ddeg uchaf o blith y 22 o siroedd yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â’r ffigur yn 2020, sef £499.50.

Yn 2024, o ran cyflog blynyddol, mae Sir Benfro yn y pymthegfed safle o blith y 22 sir yng Nghymru, gyda chyflog blynyddol canolrifol o £33,401.

Yn 2022/23, roedd tua 23.7% o blant yn Sir Benfro yn byw mewn teuluoedd ag incwm cymharol isel, a'r gyfradd hon oedd y chweched uchaf yng Nghymru. Yn 2022-23, Sir Benfro oedd â'r pumed gyfradd uchaf yng Nghymru o ran tlodi plant absoliwt, sef 19.9%. Er bod tlodi, yn enwedig tlodi cymharol, wedi cynyddu yn sgil y pandemig, mae'r sefyllfa yn Sir Benfro, o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, yn parhau'n ddigyfnewid i raddau helaeth. Mae cyfraddau tlodi plant yn amrywio'n sylweddol ar draws Sir Benfro.

## Gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion

Ym mis Hydref 2024, roedd 96 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant, ac roedd 282 o blant yn derbyn gofal. Cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal 66% yn ystod y pum mlynedd rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2024, ac mae'r ganran wedi parhau i gynyddu drwy gydol 2024-25. Mae nifer y bobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl ac yn derbyn gofal wedi cynyddu i 54 o bobl ifanc (gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches).

Ym mis Hydref 2024, roedd tua 727 o oedolion yn derbyn gwasanaeth gofal cartref. Mae'r ffigur hwn wedi amrywio dros amser, sef 940 ym mis Mawrth 2021, gan ostwng i'r lefel isaf, sef 616, ym mis Chwefror 2023, a chynyddu'n raddol wedyn o fis Ionawr 2024 ymlaen. Mae hyn yn rhannol oherwydd y bu cynnydd yn y defnydd o Daliadau Uniongyrchol a gyfeirir gan berson unigol, a'r ffaith bod nifer yr oriau gofal a ddarperir gan Daliadau Uniongyrchol bellach yn fwy na nifer yr oriau a ddarperir drwy ofal cartref.

Rydym wedi cynyddu ein gallu i ddarparu gofal preswyl yn uniongyrchol, ac erbyn hyn rydym yn darparu 36 o'r 775 o welyau ar draws pob math o leoliadau ar gyfer oedolion (ee lleoliadau preswyl, lleoliadau gofal seibiant) ar draws Sir Benfro. Yn 2024 gwnaethom agor cyfleuster gofal preswyl â phedwar gwely ar gyfer plant ac rydym yn bwriadu darparu rhagor o gyfleusterau.

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn gyflogwr sylweddol yn y sir. Yn 2023, roedd tua 1,886 o bobl yn Sir Benfro yn gweithio mewn rolau gofal cartref a gofal dydd, neu rolau cymorth. Yn ogystal â hyn, roedd tua 1,020 o bobl yn gweithio ym maes gofal preswyl (gan gynnwys lleoliadau anabledd dysgu ac iechyd meddwl).

## Tai a digartrefedd

Roedd 8,903 o eiddo ar rent cymdeithasol yn Sir Benfro ar 31 Mawrth 2024, a darparwyd 5,785 o'r rheini gan y cyngor ei hun. Mae'r cyngor wedi dechrau adeiladu tai cyngor newydd, gan gynnwys 33 o gartrefi newydd yn Johnston a gafodd eu cwblhau ym mis Gorffennaf 2024.

Mae galw sylweddol am dai cymdeithasol. Ym mis Hydref 2024, roedd 4,515 o bobl ar restr aros ar gyfer tai Cartrefi Dewisedig@Sir Benfro. O'r bobl hynny, roedd y mwyafrif ohonynt yn aros am eiddo ag un ystafell wely (2,743) neu â dwy ystafell wely (1,064).

Ar hyn o bryd mae yna argyfwng tai yn Sir Benfro sydd wedi arwain at gynnydd sydyn mewn digartrefedd. Mae nifer y bobl ddigartref sy'n gweithio gyda'r tîm cynghori wedi bod yn gostwng yn araf ers diwedd 2023, ond mae'n dal yn uchel o gymharu â lefelau hanesyddol, gan gynnwys y defnydd o letyau dros dro fel lletyau gwely a brecwast.

## Ysgolion

Mae gan Sir Benfro 60 o ysgolion, gan gynnwys un ysgol arbennig. Mae yna 19 ysgol, sy’n ysgolion ffrwd Gymraeg/dwyieithog neu’n ysgolion dwy ffrwd, ac ysgol arall sy'n gyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

Ym mis Ionawr 2024, roedd 16,564 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn yn mynychu ysgolion Sir Benfro, o gymharu â 18,822 yn 1996. Rydym yn rhagweld y bydd gostyngiad pellach o oddeutu 12% yn nifer y disgyblion dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o oedolion ifanc brodorol Sir Benfro wedi allfudo i gael addysg bellach/uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae gennym rai o'r ysgolion lleiaf yng Nghymru, ac mae 15 o’r ysgolion yn Sir Benfro â llai na 90 o ddisgyblion.

Mae 14% o’r disgyblion pump oed a throsodd yn rhugl yn y Gymraeg (fel yr aseswyd gan eu rhieni), sydd ychydig yn uwch na’r canolrif ar gyfer y 22 cyngor yng Nghymru, ac yn agos at gyfartaledd Cymru o 15%.

Mae 8.8% o’r disgyblion pump oed a throsodd o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 15%, ond tua'r cyfartaledd ar gyfer y 22 o gynghorau yng Nghymru.

## Y cyngor a'i weithlu

Mae gan Gyngor Sir Penfro 60 o aelodau etholedig, sy'n cynrychioli un o 59 o wardiau o fewn y sir (cynrychiolir 58 o wardiau gan un aelod, ac mae gan un o’r wardiau ddau aelod). Mae nifer fawr o aelodau etholedig nad ydynt yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol. Mae 14 o’r cynghorwyr yn fenywod, sy’n gynnydd o gymharu â’r saith o gynghorwyr a oedd yn fenywod cyn etholiadau Mai 2022.

Mae yna 77 o gynghorau cymuned yn gwasanaethu Sir Benfro gyfan heblaw Ynys Bŷr. Y praesept cyfartalog canolrifol yn 2024-25 oedd £11,233.20, ond mae gan tua chwarter o’r cynghorau braeseptau o £27,300 neu fwy. Mae tua 600 o gynghorwyr cymuned yn Sir Benfro. Cafodd tua 90% o’r rhain eu hethol yn ddiwrthwynebiad yn etholiadau Mai 2022 neu maent wedi’u cyfethol.

Ym mis Chwefror 2024, roedd tua 6,100 o bobl yn gweithio i'r cyngor (heb gynnwys gweithwyr achlysurol) ar draws 6,519 o swyddi. Mae gan rai gweithwyr fwy nag un swydd.

Mae tua 70% o'r gweithwyr yn fenywod. Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2023/24 yn 3.4% – mae hyn yn golygu bod menywod yn ennill 97c am bob £1 y mae dynion yn ei hennill wrth gymharu canolrif y cyflogau fesul awr. Ar gyfer 2024-25, roedd canolrif y cyflogau cyfwerth ag amser llawn yn y cyngor yn £23,893 (mae’r wybodaeth hon wedi’i chyhoeddi yn ein datganiad polisi cyflog).

Oedran canolrifol gweithlu'r cyngor yw 49 oed, ac mae'r proffil demograffig yn llai amrywiol nag ydyw yn Sir Benfro yn gyffredinol. Mae 2% o'r gweithlu o gefndir gwyn o'r tu allan i'r DU, a dim ond 2% o'r gweithlu sy'n nodi eu bod yn anabl, sy'n is o lawer na'r ffigur disgwyliedig.

# Y llinyn aur

Ni fydd y Strategaeth Gorfforaethol yn effeithiol oni bai ei bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cabinet mewn modd cydlynol, ac oni bai bod amcanion strategol sefydliadol wedi'u hymgorffori yn yr hyn y mae timau ar draws y cyngor yn ei wneud o ddydd i ddydd. Fel rheol, defnyddir y term 'llinyn aur' i ddisgrifio'r ffordd y mae cynlluniau hierarchaidd a chyflawni ar draws pob lefel o'r sefydliad yn cyd-fynd â'i gilydd ac fe'i disgrifir yn fanylach yn ein Fframwaith Rheoli Perfformiad.

Ar lefel ehangach, mae'r cyngor yn ymwneud ag ystod eang o drefniadau cynllunio rhanbarthol sy'n ymdrin â nifer o themâu neu flaenoriaethau polisi. Mae'r rhain yn dod yn fwy cyffredin wrth i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ddod yn bwysicach.

Mae angen i'n Strategaeth Gorfforaethol adlewyrchu'r ddwy elfen hyn.

## Y Fframwaith Rheoli Perfformiad


Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y cyngor yn ymdrin â strategaethau a chynlluniau pwysig, yn ogystal â threfniadau monitro ac adrodd, y manylir arnynt isod.

| **Cynllunio** | |
|---|---|
| Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro 2023 – 2028 | Mae'r cynllun hwn wedi'i seilio ar bedwar amcan llesiant sy'n nodi sut y bydd partneriaid o sefydliadau allweddol yn Sir Benfro ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gwella llesiant yn y sir drwy gydweithio drwy'r hyn a elwir yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae'r cyngor yn bartner statudol i'r Bwrdd. Ar hyn o bryd mae'r cynllun llesiant yn mynd trwy'r camau cymeradwyo terfynol, a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Rhaid i'n Strategaeth Gorfforaethol ystyried pedwar amcan llesiant y Bwrdd a nodir yn ei gynllun llesiant. |
| Rhaglen Weinyddu 2022-2027 | Mae'r ddogfen hon yn gosod cyfeiriad gwleidyddol y cyngor hyd at yr etholiadau nesaf ym mis Mai 2027. Cytunwyd arni yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Ionawr 2023. |
| Strategaeth Gorfforaethol 2025 – 2030 | Y ddogfen hon. Drwy'r amcanion llesiant a nodir yn y strategaeth, neu o fewn adrannau penodol, bydd y ddogfen hon yn sefydlu cysylltiadau â chynlluniau tymor canolig allweddol eraill – megis y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (y cytunir arno fel rhan o'r gyllideb), yn ogystal â dogfennau pwysig eraill, fel Cynllun Gweithlu, Cynllun Rheoli Asedau, a Strategaeth Gaffael y cyngor. |

| | |
|---|---|
| Cynlluniau Gwasanaeth Tymor Canolig (cyfnod o bedair blynedd, a adolygir yn flynyddol) | Caiff y rhain eu llunio gan y gwasanaethau unigol i ysgogi gwelliant ac i gynllunio a pharatoi ar gyfer senarios y dyfodol yn unol â'r blaenoriaethau yn y strategaeth hon. Nid yw cynlluniau'n cael eu cyhoeddi fel mater o drefn, ond gall pwyllgor trosolwg a chraffu priodol graffu arnynt. Caiff cynlluniau eu cymeradwyo gan yr Uwch-dîm Arwain, a'u monitro. Mae Cynlluniau Gwasanaeth Tymor Canolig yn cysylltu â'r broses o gynllunio'r gyllideb ac maent yn rhan annatod o nodi sut y gellir cyflawni blaenoriaethau'r cyngor wrth fantoli'r gyllideb dros y tymor canolig. |
| Cynlluniau uned (pan gânt eu llunio) | Gellir llunio cynlluniau uned, neu gynlluniau dîm, i gefnogi Cynlluniau Gwasanaeth Tymor Canolig, yn enwedig ar gyfer penaethiaid gwasanaethau sydd â meysydd gwasanaeth eang. |
| Cynlluniau perfformiad a llesiant unigol (blynyddol, a adolygir yn aml) | Dyma'r mecanwaith ar gyfer arfarnu perfformiad unigol. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr gymryd rhan mewn arfarniadau, gan gynnwys uwch-swyddogion. |
| **Monitro/adrodd** | |
| Cerdyn sgôr corfforaethol | Ystod o fesurau perfformiad yw hwn, y cytunir arnynt gan y Cabinet a'r Uwch-dîm Arwain, ac sydd wedi'u cynllunio i ddarparu dealltwriaeth eang o iechyd y sefydliad. Caiff y rhain eu monitro bob chwarter gan y Cabinet a'r Uwch-dîm Arwain, a chan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol o bryd i'w gilydd. |
| Hunanasesiad blynyddol | O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae dyletswydd ar y cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad drwy broses hunanasesu. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd dros y 12 mis blaenorol (o ran yr amcanion llesiant a llywodraethu), a nodi camau gweithredu i wella ar gyfer y flwyddyn ganlynol. |
| Asesiad o berfformiad y panel | O dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, mae'n ofynnol i'r cyngor benodi panel allanol o gymheiriaid i gynnal adolygiad, unwaith ymhob cylch etholiadol, er mwyn canfod i ba raddau y mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau perfformiad. Cynllunnir i'r asesiad cyntaf gael ei gynnal ym mis Hydref 2025. |
| Y pwyllgorau trosolwg a chraffu | Mae gan bum pwyllgor trosolwg a chraffu'r cyngor rôl o fewn eu cylchoedd gwaith i oruchwylio cynlluniau a strategaethau perthnasol a phrosesau adrodd ar berfformiad a monitro perfformiad perthnasol. |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Mae'r cyngor yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yn flynyddol. Canlyniad yr adolygiad hwn yw Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu, ac i'r cyngor llawn i'w gymeradwyo. |

## Y cyd-destun cynllunio ehangach – gweithio rhanbarthol a chydweithredol

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn rhan o gyd-destun cyfres ehangach o gynlluniau sy'n arbennig o berthnasol ar gyfer llunio lleoedd, a meysydd polisi fel datblygu economaidd, trafnidiaeth a defnydd tir lle mae angen inni gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill. Ardal De-orllewin Cymru yw'r ardal arferol ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r cynllun Cymru gyfan Dyfodol Cymru – Cynllun Cenedlaethol 2040 (sydd ar frig yr hierarchaeth o gynlluniau a ddefnyddir ar gyfer cynllunio defnydd tir) yn cynnwys diagram strategol rhanbarthol sy'n nodi'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru.




Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn bodoli i symleiddio a gwella gwaith cynllunio a chydweithio rhanbarthol ar draws Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae Cyngor Sir Penfro yn aelod ohono. Mae wedi cytuno ar ei Gynllun Corfforaethol yn ddiweddar.

Mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru lunio ystod o gynlluniau eraill fel yr amlinellir isod:

1 Cyflawni'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol a'r Strategaeth Ynni Ranbarthol ar y cyd a thrwy hynny, wella llesiant economaidd (wedi'i ddatgarboneiddio) De-orllewin Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

   Mae'r cynlluniau y cyfeirir atynt yng Nghynllun drafft Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) eisoes wedi'u cymeradwyo:
   - Cynllun Cyflawni Economaidd De-orllewin Cymru (Medi 2021)
   - Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru (Mawrth 2022). Cliciwch yma i weld crynodeb un dudalen.

2 Llunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n seiliedig ar gydweithio ac sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu system drafnidiaeth sy'n dda i'n cenedlaethau o bobl a chymunedau yn y dyfodol, yn dda i'n

hamgylchedd, ac yn dda i'n heconomi a'n lleoedd.  Mae'r cynllun hwn yn disodli'r cynlluniau trafnidiaeth lleol.  Unwaith y cytunir arno, bydd y cynllun rhanbarthol yn cael ei adolygu'n flynyddol gydag adolygiad mwy sylfaenol tua 2028.

3 Llunio Cynllun Datblygu Strategol cadarn, cyflawnadwy, cydgysylltiedig ac wedi'i deilwra i'r ardal leol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chydweithio â hwy, ac sy'n nodi'n glir raddfa a lleoliad twf yn y dyfodol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.  Unwaith y cytunir arno, bydd y cynllun hwn yn eistedd rhwng fframweithiau cynllunio cenedlaethol Cymru gyfan a chynlluniau datblygu lleol y cyngor sir/ parc cenedlaethol.  Bydd y broses o'i gymeradwyo yn adlewyrchu proses y cynlluniau datblygu lleol, a rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu erbyn 2030.

Yn ogystal â Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, mae cyrff rhanbarthol eraill yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn cydweithio â'r awdurdodau cyfagos.  Gall y cyrff hyn ddefnyddio ardaloedd rhanbarthol sydd ychydig yn wahanol.

A hithau'n gwasanaethu'r un ardal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn goruchwylio'r broses barhaus o integreiddio'r maes iechyd a'r maes gofal cymdeithasol.  Mae ei Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun hwn.  Mae ei hadroddiad ar Sefydlogrwydd Marchnad Gorllewin Cymru yn sail i'n gweithredoedd i gryfhau'r sector gofal annibynnol.

Gan wasanaethu Sir Benfro, Sir Gâr ac Abertawe, mae Partneriaeth yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion cyson, a hwnnw'n canolbwyntio ar strategaethau her a chymorth sy'n gwella'r dysgu a'r addysgu.

## Tueddiadau hirdymor

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu amcanion llesiant yn nodi y dylai'r Strategaeth Gorfforaethol gyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf o'i Hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol (a'i phecyn tystiolaeth). Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar bedwar tueddiad graddfa fawr (pobl a phoblogaeth, iechyd a therfynau'r blaned, anghydraddoldebau a thechnoleg) a all effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cipolwg ar y tueddiadau sy'n ymwneud â chyllid cyhoeddus a galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus. Hefyd o ddiddordeb mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (a lunnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru) sy'n cynnwys yr asesiad o reolaeth gynaliadwy Cymru ar adnoddau naturiol, gan gynnwys effaith Cymru yn fyd-eang.

Nid yw'r prif ddogfennau wedi cael eu diweddaru ers y Strategaeth Gorfforaethol ddiwethaf. Rydym wedi troi at ffynonellau eraill o safon a adolygwyd gan gymheiriaid megis Tueddiadau Strategol Byd-eang y Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn diweddaru'r adran hon. Mae'r ffynhonnell hon yn pwysleisio'r potensial i gystadleuaeth a gwrthdaro ar lefel fyd-eang, ynghyd ag anghydraddoldeb cynyddol, i ddadsefydlogi cymdeithasau.

Mae ansicrwydd wastad yn perthyn i unrhyw ragamcaniad neu ragolwg oherwydd eu bod yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau sydd ar gael ar adeg eu hysgrifennu. Mae peth o'r wybodaeth yn adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar gael ar gyfer siroedd ond mae llawer iawn mwy o ansicrwydd yn perthyn i'r ffigurau hyn.

### Poblogaeth

- Er y rhagamcanir o hyd y bydd y boblogaeth fyd-eang yn tyfu 1.5 biliwn i gyrraedd 9.6 biliwn erbyn 2050, rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru, yn gyson â llawer o wledydd Gorllewin Ewrop, yn tyfu'n gymharol araf, gyda thwf yn ne'r wlad yn bennaf. Mae mudo'n parhau i fod yn un o'r ffactorau anoddaf i'w ragweld, a heb fudo mae poblogaeth Cymru yn debygol o ostwng.
- Rhagamcanir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 5.8%, o 3.11 miliwn i 3.29 miliwn, sef cynnydd o 5.8% o gymharu â 7.9% ar gyfer Lloegr dros yr un cyfnod.
- Er gwaethaf twf isel yn y boblogaeth, rhagamcanir y bydd nifer yr aelwydydd, yn enwedig aelwydydd sengl, yn cynyddu ledled Cymru (yn achos aelwydydd sengl, cynnydd o 440,000 yn 2020 i oddeutu 525,000 erbyn 2043). Bydd hyn yn hybu twf ar gyfer tai newydd, er bod llawer o ansicrwydd ynghylch niferoedd.
- Er bod amcangyfrifon yn amrywio oherwydd effaith pandemig COVID-19, roedd disgwyl i'r cynnydd yn y disgwyliad oes yng Nghymru barhau, er bod cyfradd y cynnydd wedi arafu dros y degawd diwethaf. Mae'r data diweddaraf ar gyfer disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd yn dangos bod y ddau wedi gostwng yng Nghymru yn sgil pandemig COVID-19, yn enwedig i fenywod. Mae gan y cyfuniad o'r ddau ffactor hyn y potensial i sbarduno'r galw parhaus am ofal cymdeithasol.
- Rhagamcanir y bydd nifer yr achosion o glefydau cronig yn cynyddu. Disgwylir i nifer yr achosion o ddementia gynyddu o 7% yn 2019 i 9% yn 2040, gan hybu twf yn y galw am ofal cymdeithasol cymhleth.

- Yn 2019, roedd disgwyl i nifer y siaradwyr Cymraeg gynyddu, gyda rhagamcanion o nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn amrywio'n sylweddol. Mae data o Gyfrifiad 2021 yn awgrymu bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn llai nag a ragamcanwyd yn flaenorol.
- Mae'r rhagamcanion poblogaeth diweddaraf ar gyfer Sir Benfro yn seiliedig ar amcangyfrifon 2018. Mae'n amlwg bod y rhain wedi goramcangyfrif poblogaeth breswyl arferol Sir Benfro. Cyhoeddir rhagamcanion wedi'u diweddaru ar 28 Ionawr 2025. https://www.ons.gov.uk/releases/nationalpopulationprojections2021based

## Anghydraddoldebau a chyfleoedd cyfartal

- Yn fyd-eang, hyd at bandemig COVID-19, roedd tlodi eithafol (pobl yn byw ar lai nag $1.90 y dydd ar sail prisiau 2011) wedi gostwng o gymharu â'r tri degawd blaenorol. Fodd bynnag, ers 2020 mae tlodi eithafol wedi cynyddu. Wrth i wledydd tlotach ddod yn gyfoethocach, mae anghydraddoldeb ar y raddfa fyd-eang hefyd yn lleihau.
- Nid yw lefelau sgiliau, fel y'u mesurwyd gan yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yn caniatáu cymariaethau hirdymor. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod lefelau sgiliau yng Nghymru yn cynyddu; mae cyfeiliornadau wrth samplu yn golygu nad oes sicrwydd am y duedd yn Sir Benfro.
- Er gwaetha'r ffaith yr oedd cyfraddau diweithdra (hyd at y pandemig) yn tueddu i ostwng ledled Cymru, mae'r gyfradd tlodi mewn aelwydydd lle mae **pob** oedolyn mewn gwaith wedi parhau i gynyddu, gan ddangos nad yw bod mewn cyflogaeth, ar ei ben ei hun, yn ddigon i godi rhywun allan o dlodi yng Nghymru. Mewn termau cymharol, mae cyfraddau tlodi plant yn Sir Benfro wedi cynyddu ac maent bellach ymhlith yr uchaf, neu'n cyfateb i'r uchaf yng Nghymru. Mae hyn hefyd yng nghyd-destun cyfradd gynyddol o dlodi incwm cymharol, dros y blynyddoedd diwethaf, yn achos plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae pob oedolyn mewn gwaith.
- Ym mis Ebrill 2024, roedd yr enillion wythnosol gros canolrifol ar gyfer oedolion a oedd yn gweithio'n llawnamser yng Nghymru yn £674.50. Roedd hyn yn 92.6% o'r cyfartaledd ar gyfer y DU (£728.3). Roedd y cyflog wythnosol gros canolrifol yng Nghymru yr wythfed uchaf o blith 12 “rhanbarth” y DU (h.y. y tair gwlad: Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a naw rhanbarth Lloegr).

## Iechyd a therfynau'r blaned

- Erbyn 2050 yng Nghymru rhagwelir y bydd tymereddau cyfartalog yr haf yn cynyddu 1.34 ºC. Disgwylir i wlybaniaeth yn y gaeaf godi 5% yn yr un cyfnod tra bydd gwlybaniaeth yn yr haf yn gostwng 16%, a disgwylir y bydd lefelau'r môr yn cynyddu ledled y wlad.
- Gall newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol waethygu anghydraddoldebau iechyd a llesiant. Mae perygl hefyd y gall ymatebion i'r newid yn yr hinsawdd roi baich anghymesur ar bobl a chymunedau sydd eisoes yn agored i niwed. Er enghraifft, rhagamcanir y bydd y risgiau o farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres yn treblu erbyn y 2050au yn absenoldeb ymaddasu ychwanegol. Ar hyn o bryd mae grwpiau difreintiedig yn fwy tebygol o fyw mewn adeiladau nad ydynt wedi'u haddasu'n ddigon da i amodau tymheredd uchel.

- Mae amcangyfrifon yn dangos bod angen i allyriadau ostwng 7.6% bob blwyddyn rhwng 2020 a 2030 neu fe gollir y cyfle i gyfyngu cynhesu i 1.5ºC. Fodd bynnag, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang wedi tyfu bob blwyddyn ers yr argyfwng ariannol yn 2009, ar gyfradd o 1.5% y flwyddyn. Yn y cyd-destun byd-eang hwn, mae Cymru wedi datgarboneiddio ychydig yn arafach na'r DU, ond bu gostyngiad o oddeutu 40% yma ers 2008. Y cyfraniad unigol mwyaf tuag at y gostyngiad hwn yw lleihau allyriadau carbon yn y sector cyflenwi ynni.
- Mae toreth o dystiolaeth sy'n awgrymu bod dirywiad mewn rhywogaethau ar draws grwpiau ym mhob rhan o'r byd, ac mae'r duedd hon yn digwydd ledled Cymru. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn rhagweld y bydd un ymhob wyth rhywogaeth ar y blaned yn diflannu o fewn 20 mlynedd.
- Mae tystiolaeth bod allyriadau o systemau cynhyrchu bwyd byd-eang yn sbarduno colled bioamrywiaeth ac yn lleihau cydnerthedd ecosystemau. Er enghraifft, mae llygredd nitrogen yn arwain at golli rhywogaethau sensitif. Un o ffynonellau'r llygredd hwn yw amonia sy'n tarddu o ffynonellau amaethyddol yn bennaf.
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n negyddol ar weithgareddau cynhyrchu bwyd yn fyd-eang, gyda bron i hanner y rhagamcanion yn nodi y bydd cynnyrch cnydau'n lleihau fwy na 10% y tu hwnt i 2050. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, rydym yn dibynnu ar fewnforion bwyd o wledydd eraill, ac mae'r rhain yn aml yn dod o wledydd sy'n agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar brosesau cynhyrchu bwyd.

## Datblygiad technolegol

- Yn union fel ag a ddigwyddodd yn y gorffennol, disgwylir i ddatblygiadau technolegol barhau i baratoi'r ffordd o ran diffinio sut y bydd cymdeithasau ac economïau modern yn rhyngweithio ac yn datblygu yn y dyfodol.
- Mae canran y bobl hynny nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd wedi gostwng dros amser yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod gagendor digidol yn parhau rhwng y bobl hynny sydd â mynediad at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r bobl hynny nad oes ganddynt fynediad ati. Er enghraifft, mae tystiolaeth bod cyfran y bobl dros 75 oed yn parhau i fod yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd na phobl o grwpiau oedran iau.
- Yn sgil y pandemig, roedd tuedd tuag at weithio mewn ffordd fwy hyblyg a gweithio gartref er bod y data diweddaraf yn awgrymu bod y duedd hon wedi cyrraedd uchafbwynt ac mai cynnydd bach iawn a fu yn nifer y cyfleoedd swyddi hyblyg a hysbysebir. Mae'r gallu i weithio gartref – neu'n agosach at adref – yn ddibynnol iawn ar y diwydiant a'r swydd, ac mae'r bobl hynny sydd â swyddi â chyflog isel yn aml ag opsiynau cyfyngedig iawn o ran gweithio'n hyblyg.

.

## Cyllid cyhoeddus

Ysgrifennwyd yr adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn ystod y pandemig, ac o chwe dimensiwn yr adroddiad, cyllid cyhoeddus yw'r dimensiwn lle cafodd amseriad y gwaith yr effaith fwyaf ar gywirdeb. Mae'r Pecyn Tystiolaeth yn cyfeirio at Adroddiad y Prif Economegydd a Rhagolygon Cyllidol fel ffynhonnell o wybodaeth i gyfeirio ati

yn y dyfodol, a chyfeirir at rifyn 2023 isod.  Fodd bynnag, lluniwyd yr adroddiad hwn cyn yr etholiad cyffredinol yn 2024 a chyllideb ddiweddaraf Llywodraeth y DU.  Mae'r adran Rhagolygon Cyllidol wedi'i chrynhoi isod:

- Mae'r OBR wedi nodi bod sefyllfa gyllidol y DU wedi gwella, yn bennaf oherwydd chwyddiant uwch na'r disgwyl sy'n hybu refeniw treth a ddefnyddiwyd i ariannu toriadau i drethi. Dros y tymor hwy, mae gwerth y toriadau treth newydd bron yn gyfartal â'r pwysau ychwanegol heb eu hariannu y mae chwyddiant yn eu rhoi ar wasanaethau cyhoeddus.
- Y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad o wariant presennol, rhagamcanir y bydd gwariant o ddydd i ddydd ond yn cynyddu'n gymedrol iawn mewn termau real, ac mae gwariant cyfalaf yn sefydlog mewn termau arian parod.  Y canlyniad yw gwasgfa mewn gwariant cyhoeddus.
- Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd wedi barnu bod sefyllfa gyllidol y DU yn anghynaladwy dros y tymor hwy.  Ymhlith y pwysau mae effeithiau poblogaeth sy'n heneiddio, y pwysau sy'n deillio o fygythiadau diogelwch ar lefel fyd-eang, a'r costau i'r sector cyhoeddus o ganlyniad i symud i sero net ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Bydd y ffordd yr ariennir pwysau demograffig yn Lloegr yn effeithio ar yr adnoddau a fydd ar gael i Gymru i fynd i'r afael â'r pwysau demograffig hyn (cyfeirir at hyn weithiau fel cyllid canlyniadol fformiwla Barnett).
- Disgwylir y bydd y trethi datganoledig yn parhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i gyllid Llywodraeth Cymru.
- Mae'r gagendor mawr rhwng cyfanswm refeniw a gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn golygu trosglwyddiad mawr i bobl Cymru drwy system gyllidol y DU.  Y trosglwyddiad hwn yw'r prif reswm bod y gagendor rhwng mesurau incwm aelwydydd a GDP yng Nghymru yn bodoli, ac mae'n risg sylweddol i safonau byw yng Nghymru.

## Galw a thechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus

- Y prif sbardun sy'n creu mwy o alw yw'r newid yn y boblogaeth: mae nifer y bobl dros oedran pensiwn yn cynyddu'n gyflymach na nifer y bobl o oedran gweithio.  Ledled y DU rhagamcanir y bydd gwariant ar iechyd yn tyfu o 7.3% i 8.3% o Gynnyrch Domestig Gros erbyn 2064/65.
- Mae'n debygol y bydd twf mewn deallusrwydd artiffisial ar draws amrywiaeth o gymwysiadau.  Mae swyddi sgiliau isel mewn llawer mwy o berygl o gael eu disodli gan dechnolegau deallusrwydd artiffisial neu fwy o awtomeiddio. Ceir hefyd risg y gallai gwybodaeth ragfarnllyd gael ei chynnwys mewn systemau dysgu peirianyddol, gan godi goblygiadau moesegol.
- Yn y dyfodol mae'n debygol y bydd twf sylweddol yn swm y data a gynhyrchir ochr yn ochr â gwerth economaidd data. Mae datblygiadau technegol ym maes cyfrifiadura hefyd yn bosibl, gan greu cyfrifiaduron llawer mwy pwerus a chaniatáu cyfrifiadau cyflymach a mwy cymhleth.
- Bydd mynediad cyfartal i dechnoleg gwybodaeth a'r rhyngrwyd yn dod yn fwyfwy pwysig, a bydd y bobl hynny nad oes ganddynt fynediad yn cael eu rhoi dan anfantais gynyddol.
- Mae nifer y bobl sy'n defnyddio'r ffôn i gysylltu â'r cyngor wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Ochr yn ochr â hyn, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cwsmeriaid sy'n cysylltu â'r cyngor wyneb yn wyneb, yn

ogystal â gostyngiad yn y defnydd o arian papur a darnau arian i dalu am wasanaethau.

## Ein hamcanion llesiant ar gyfer 2025-2030

Dyma ein hamcanion llesiant ar gyfer 2025-2030:

**Ein Dyfodol –** ***galluogi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc, wrth eu cyfarparu â sgiliau ar gyfer y dyfodol***

**Ein Lle –** ***lleoedd llewyrchus, gydag amgylcheddau glân, diogel a chynaliadwy, lle gall pobl fyw'n dda a ffynnu***

**Ein Cymunedau –** ***gofalu am bobl, a galluogi cymunedau gweithgar, dyfeisgar a chysylltiedig***

**Ein Cyngor –** ***cyngor sy'n gynaliadwy yn ariannol, sydd wedi'i lywodraethu'n dda, a chanddo weithlu sy'n gallu cefnogi'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu***

Mae'r tri cyntaf yn edrych tuag allan, gan ganolbwyntio ar sut y bydd y cyngor yn gwella llesiant pobl a chymunedau yn Sir Benfro ac ar y cyfraniad y byddwn yn ei wneud tuag at nodau llesiant cenedlaethol Cymru.

Mae'r pedwerydd yn canolbwyntio'n fewnol ar yr hyn y mae angen i'r cyngor ei wella a'i gryfhau. Bydd yr amcan llesiant hwn yn sylfaenol i gyflawni'n holl waith yn effeithiol, ac yn ei hwyluso, a bydd yn rhaid ei gyflawni er mwyn cyflawni'r tri amcan llesiant arall. Mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol ond nid ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â hwy.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r amcanion llesiant yn fwy manwl. Yn benodol, mae'n nodi'r prif flaenoriaethau sy'n sylfaenol i bob un o'n hamcanion llesiant ac yn dangos sut mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau gwleidyddol a nodir yn Rhaglen Weinyddu bresennol y Cabinet ac yn cyd-fynd â hwy.

# Ein dyfodol

## *Galluogi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc, wrth eu cyfarparu â sgiliau ar gyfer y dyfodol*

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae dyfodol Sir Benfro yn perthyn i'n plant a'n pobl ifanc, ac yn dibynnu arnynt. Rydym am greu'r amodau sy'n cefnogi ac yn galluogi'r garfan hon i dyfu, dysgu a gwneud y gorau o'u potensial, yn ogystal â datblygu'r sgiliau a fydd yn hanfodol i gynaliadwyedd Sir Benfro yn y dyfodol.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud i gyflawni hyn?

- Datblygu un llwybr i gydlynu dull system gyfan o weithio ar draws y gwasanaethau mamolaeth a'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar 0 i 7 oed
- Cryfhau dulliau o ymyrryd yn gynnar a mesurau atal
- Arwain a chefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Ymgorffori strategaeth y blynyddoedd cynnar yn ein harferion gwaith gydag asiantaethau partner er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd
- Ail-ddylunio'r broses blaen tŷ yn y Tîm Asesu Gofal Plant
- Gwella systemau recriwtio a chadw gofalwyr maeth
- Parhau i greu disgwyliadau uchel wrth wella safonau ar gyfer pob disgybl, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai mwyaf difreintiedig
- Cwblhau ein Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y cytunwyd arni a datblygu'r achos dros ail-drefnu ysgolion
- Parhau â'n strategaethau llwyddiannus er mwyn gwella arweinyddiaeth mewn ysgolion
- Defnyddio data a gwybodaeth ysgol yn well er mwyn monitro a gwerthuso ysgolion
- Parhau i ddatblygu prosesau sy'n cryfhau dulliau o ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ac addysg ddewisol yn y cartref
- Rhoi camau gweithredu ar waith i wella dulliau ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant
- Cefnogi cyfleoedd bywyd pobl ifanc drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r cymwysterau galwedigaethol hanfodol sy'n eu galluogi i symud ymlaen i fyd

gwaith a dysgu pellach, ac sy’n debygol o gydweddu â chyfleoedd economaidd yn Sir Benfro yn y dyfodol

### Sut fyddwn ni'n gwybod?

*<u>Data meintiol o'n Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy’n ymwneud â’r canlynol:</u>*

Plant sy'n derbyn gofal
Atgyfeiriadau i’r Tîm Asesu Gofal Plant
Plant ar y gofrestr amddiffyn plant
Gofalwyr maeth

Lefelau cyrhaeddiad disgyblion
Presenoldeb yn yr ysgol (cynradd ac uwchradd)
Gwaharddiadau

*<u>Ffynonellau ansoddol</u>*

Deilliannau’r rhaglen Dechrau'n Deg
Deilliannau’r strategaeth tlodi
Deilliannau’r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Cydweithrediad â Choleg Sir Benfro
Deilliannau’r partneriaethau dysgu a sgiliau rhanbarthol

### Cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

# Ein lle

***Lleoedd llewyrchus, gydag amgylcheddau glân, diogel a chynaliadwy, lle gall pobl fyw'n dda a ffynnu***

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae pobl eisiau byw mewn lleoedd sy'n lân ac yn ddiogel. Sir Benfro yw un o'r lleoedd harddaf yn y wlad i fyw ynddo ac mae dyletswydd arnom i'w hamddiffyn a'i gwella ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae ein heconomi hefyd yn newid, a chyda hynny mae'n cyflwyno'r cyfle i hybu twf a ffyniant er budd ein trigolion.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud i gyflawni hyn?

- Manteisio ar y cyfle unwaith mewn cenhedlaeth a ddarperir gan y Porthladd Rhydd Celtaidd a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a gosod Sir Benfro yng nghanol y chwyldro ynni gwyrdd a glas
- Ail-lunio trefi Sir Benfro er mwyn creu lleoedd bywiog a ffyniannus drwy gyflawni prosiectau adfywio
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd mewnfuddsoddi, a datblygu ein safleoedd cyflogaeth strategol ar draws y sir er mwyn cefnogi'n prif sectorau
- Parhau i wella systemau ailgylchu ac ailddefnyddio er mwyn bodloni gofynion sy'n ymwneud â'r strategaethau "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" a "Mwy nag Ailgylchu"
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli mesurau ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur, gan gynnwys cyflawni cynllun gweithredu carbon sero net y cyngor
- Parhau i ganolbwyntio ar welliannau i dir cyhoeddus a mynd i'r afael â throseddau amgylcheddol
- Cyflawni cynlluniau ymaddasu arfordirol ac afonol er mwyn lliniaru effaith llifogydd
- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy
- Gwella ansawdd a chynaliadwyedd stoc tai'r cyngor a sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto
- Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol newydd sy'n cefnogi ac yn integreiddio ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Sir Benfro
- Datblygu a chyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd drwy drefniadau partneriaeth cydweithredol

- Cefnogi amgylcheddau byw a gweithio diogel drwy ddarparu gwasanaethau diogelu'r cyhoedd yn effeithiol
- Cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion i gyflwyno ardoll ymwelwyr

### Sut fyddwn ni'n gwybod?

*Data meintiol o'n Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy'n ymwneud â'r canlynol:*

Cyfraddau gwastraff ac ailgylchu
Amgylchedd glân (sbwriel, baw cŵn, tipio anghyfreithlon ac ati)
Rhestr aros Cartrefi Dewisedig
Tai fforddiadwy wedi'u hadeiladu
Grantiau cyfleusterau i bobl anabl

*Ffynonellau ansoddol*

Cyflawni prosiectau'r Porthladd Rhydd Celtaidd a'r deilliannau cysylltiedig
Cyflawni prosiectau cyfalaf adfywio a'r deilliannau cysylltiedig
Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a chanllawiau cynllunio atodol
Cyflawni cynllun gweithredu sero net y cyngor

### Cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

# Ein Cymunedau

## *Gofalu am bobl, a galluogi cymunedau gweithgar, dyfeisgar a chysylltiedig*

### Pam mae hyn yn bwysig?

Rydym am gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Byddwn yn parhau i feithrin partneriaethau cryf ar draws y cyngor, y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector i alluogi hyn. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod gan gymunedau y gallu a'r rhwydweithiau sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hunain cymaint â phosibl. Ein rôl ni yw galluogi a hwyluso hy.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud i gyflawni hyn?

- Parhau i integreiddio gwaith Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a chymorth ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd
- Ailgynllunio'r broses blaen y tŷ i’w gwneud yn rhwyddach i gael mynediad i ofal cymdeithasol i oedolion drwy ad-drefnu gwasanaethau
- Gweithredu prosesau sy'n nodi cyfleoedd eraill i wneud gwasanaethau’n fwy effeithlon drwy ddefnyddio methodoleg Vanguard
- Parhau i foderneiddio cyfleoedd dydd ac adeiladu ar ein dull o ymdrin â mentrau cymdeithasol
- Parhau i gryfhau ac ymwreiddio ein dulliau o ddiogelu oedolion
- Adolygu’r ddarpariaeth o wasanaethau ailalluogi a gofal cartref mewnol a sicrhau eu bod yn addas i’r diben
- Sicrhau bod sgiliau’r gweithlu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yn addas ar gyfer y dyfodol
- Cryfhau cymunedau drwy amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys hybiau cymunedol a chysylltwyr cymunedol sydd wedi'u targedu i atal ac ymyrryd yn gynnar
- Ymwreiddio strategaethau i atal a lliniaru digartrefedd
- Arddangos arweinyddiaeth ar lefel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy arwain ar gyflawni’r flaenoriaeth o Gryfhau Cymunedau yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd
- Parhau i gyflawni prosiectau diwylliannol sy’n cryfhau cysylltiadau ag iaith, llesiant a lle (cynefin)

- Cefnogi a hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg fel iaith gyntaf, gan gynnwys gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2026

### Sut fyddwn ni'n gwybod?

*Data meintiol o'n Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy’n ymwneud â’r canlynol:*

Asesiadau o anghenion
Asesiadau gofalwyr
Atgyfeiriadau diogelu
Darpariaeth gofal cartref
Darpariaeth gofal preswyl
Cyfraddau digartrefedd
Pobl sy’n cysgu allan
Cyfraddau gwirfoddoli
Siaradwyr Cymraeg

*Ffynonellau ansoddol*

Cyflawni prosiect Cryfhau Cymunedau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Eisteddfod 2026
Cyflawni’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol



| Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus |
|---|---|---|

## Ein Cyngor

***Cyngor sy'n gynaliadwy yn ariannol, sydd wedi'i lywodraethu'n dda, a chanddo weithlu sy'n gallu cefnogi'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu***

### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r cyngor yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae llawer o resymau am hyn, ond y peth pwysig yw sicrhau ein bod yn gweithredu i sicrhau bod y cyngor, a'r gwasanaethau a ddarparwn, yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol. I gefnogi hyn, mae'n hanfodol bod penderfyniadau'r cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu dymuniadau ein trigolion. Mae angen inni hefyd addasu ein gweithlu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i ateb yr heriau hanesyddol hyn.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud i gyflawni hyn?

- Pennu cyllideb gytbwys wrth ystyried yr heriau ariannol sy’n wynebu’r cyngor, gan ymgysylltu’n llawn â phob rhanddeiliad, ac yng nghyd-destun Cynllun Ariannol Tymor Canolig cynaliadwy

- Cyrraedd ein targedau casglu ar gyfer y dreth gyngor a’r rhent tai, a lleihau ôl-ddyledion o ran y ddau

- Sicrhau bod y sefydliad yn mabwysiadu’r gwelliannau o'r Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol yn llawn, gan yr aelodau etholedig a’r swyddogion

- Cryfhau goruchwyliaeth ac ymgysylltiad aelodau anweithredol drwy graffu effeithiol

- Cryfhau a gwreiddio ein prosesau o ran llunio asesiadau effaith integredig a chynnal ymgyngoriadau

- Cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad a sicrhau bod trigolion yn gallu chwarae rhan mewn llunio dyfodol y cyngor a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd neu ddylanwadu arni

- Cyflawni ein cynllun Gweithlu’r Dyfodol a mynd i’r afael â heriau sy’n ymwneud â recriwtio a chadw

- Parhau i gyflawni strategaethau sy’n cefnogi iechyd a llesiant meddwl gweithwyr

- Sicrhau bod ein prosesau cynllunio corfforaethol a gwasanaethau yn adlewyrchu ein heriau, ac yn hwyluso gwaith cynllunio, cyflawni a monitro priodol o'n hamcanion dros y tymor canolig

- Sicrhau bod risgiau sefydliadol a chyfarwyddiaethol (bygythiadau a chyfleoedd) yn cael eu nodi, eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol

### Sut fyddwn ni'n gwybod?

*Data meintiol o'n Cerdyn Sgorio Corfforaethol sy'n ymwneud â'r canlynol:*

Cofnodion absenoldeb yr adran Adnoddau Dynol
Cyfraddau casglu'r dreth gyngor / rhenti tai ac ôl-ddyledion

*Ffynonellau ansoddol*

Proses pennu'r gyllideb
Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Datganiad o Gyfrifon
Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol
Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu
Strategaeth Ddigidol
Cyflawni'r Strategaeth Gyfranogiad
Adroddiad Hunanasesu
Data etholiadau yn 2027 (ee seddi sy'n cael eu cystadlu)

## Datganiadau cenhadaeth Rhaglen Weinyddu'r cyngor

### Lle a'r rhanbarth

**1a** – Helaethu mantais gymharol Sir Benfro ym maes ynni i sbarduno chwyldro o ran buddsoddi mewn ynni gwyrdd gan hefyd gefnogi a datblygu elfennau sylfaenol eraill yr economi leol, amaethyddiaeth a thwristiaeth.

**1b** – Sicrhau bod Sir Benfro'n parhau i fod yn lle gwych i ymweld ag ef, ac i fyw a gweithio ynddo, gyda chanolfannau trefol bywiog, cysylltedd digidol sydd ar flaen y gad yn y wlad ac arlwy hamdden o safon fyd-eang.

### Newid hinsawdd

**2a** – Cyrraedd ein targed i fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030, a gweithio tuag at ddatgarboneiddio'r system drafnidiaeth dros y tymor hwy.

**2b** – Mabwysiadu ymagwedd arloesol tuag at ddiogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd a'n gallu i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

### Addysg

**3** – Byddwn yn gwneud Sir Benfro yn lle gwych i ddysgu, byw a thyfu ynddo.

### Gofal cymdeithasol

**4** – Cynorthwyo pobl â gofal a chymorth priodol i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, gan ganolbwyntio ar fesurau atal a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel.

### Tai

**5** – Byddwn yn arloesol wrth ymdrin â'r heriau tai yr ydym yn eu hwynebu drwy sicrhau bod gan bobl Sir Benfro fynediad at gartref addas sydd o safon uchel, yn fforddiadwy ac yn gwella'u hansawdd bywyd.

### Cynllunio

**6** – Byddwn yn llunio ac yn gwella amgylchedd Sir Benfro, ac yn cyflawni rôl hanfodol o ran darparu tai, cynnal a denu busnesau, taro cydbwysedd o ran effeithiau datblygiadau ar gymunedau a chyfrannu at ymateb y cyngor i'r argyfwng hinsawdd a natur.

### Gwasanaethau trigolion

**7** – Byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu ‘hanfodion gwych’ – gwasanaethau craidd fel priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu, diogelu'r cyhoedd a hamdden a diwylliant – sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd cymunedau, gan sicrhau bod trigolion yn byw mewn cymdogaethau sy’n lân, yn wyrdd, yn ddiogel ac yn llesol.

**Cyllid**

**8** – Byddwn yn gweithio mewn ffordd arloesol a darbodus i gyflawni'r Rhaglen Weinyddu o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael, a chyfyngiadau o ran amser ac ansawdd.

**Gwella corfforaethol**

**9a** – Byddwn yn cynnig arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu cryf i hwyluso’r gwaith o gyflawni blaenoriaethau Sir Benfro, yn y tymor byr a'r tymor hir, yn enwedig o ran llywodraethu; canolbwyntio ar gwsmeriaid; pobl a diwylliant y sefydliad; a digidol, data a thechnoleg.

**9b** – Byddwn yn tanategu’r rhain drwy barhau i ddatblygu ein prosesau cyfathrebu, meithrin perthnasoedd gwych â rhanddeiliaid, a darparu arweinyddiaeth gadarn – yn wleidyddol ac o ran rheoli.

**Cymunedau**

**10** – Byddwn yn cefnogi cymunedau Sir Benfro, gan gynnal perthnasoedd cadarnhaol â hwy i helpu i greu cymunedau byw, dyfeisgar, cysylltiedig, cynaliadwy a chreadigol.

## Matrics perthnasoedd rhwng datganiadau cenhadaeth y Rhaglen Weinyddu a’r amcanion llesiant

| | Galluogi’r dechrau gorau mewn bywyd i’n plant a phobl ifanc, wrth eu cyfarparu â sgiliau ar gyfer y dyfodol | Lleoedd llewyrchus, gydag amgylcheddau glân, diogel a chynaliadwy, lle gall pobl fyw'n dda a ffynnu | Gofalu am bobl, a galluogi cymunedau gweithgar, dyfeisgar a chysylltiedig | Cyngor sy'n gynaliadwy yn ariannol, sydd wedi'i lywodraethu'n dda, a chanddo weithlu sy'n gallu cefnogi'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu |
|---|---|---|---|---|
| **Lle a'r rhanbarth** | | **1a, 1b** | | |
| **Newid hinsawdd** | | **2a, 2b** | | |
| **Addysg** | **3** | | | |
| **Gofal cymdeithasol** | **4** | | **4** | |
| **Tai** | | **5** | | |
| **Cynllunio** | | **6** | | |
| **Gwasanaethau trigolion** | | **7** | | |
| **Cyllid** | | | | **8** |
| **Gwella corfforaethol** | | | | **9a, 9b** |
| **Cymunedau** | | | **10** | |

## Cyllid yn y tymor canolig

Cyflwynwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft 2025-26 i 2028-29 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2024. Bydd y cyngor yn cytuno ar y cynllun terfynol ar gyfer 2025-26 i 2028-29 yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2025.

Ar adeg ysgrifennu fersiwn drafft yr adroddiad hwn ar gyfer ymgynghori arno, mae'n debygol iawn y bydd y ffigurau isod yn newid, wrth i'r setliad cyllid i lywodraethau lleol gan Lywodraeth Cymru ddod yn gliriach. I gael y sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyfeiriwch at bapurau'r Cabinet ar gyfer cyfarfod 13 Ionawr 2025 https://mgwelsh.pembrokeshire.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=281&LLL=0.

Canfu asesiad fod bwlch ariannu rhagamcanol rhwng £45.6 miliwn (yr achos gorau) a £82 miliwn (yr achos gwaethaf) ar gyfer 2025-26 i 2028-29 gan ystyried ailbrisiad y gyllideb sylfaenol – ar sail amcangyfrifon o newidiadau yn y dyfodol i sylfaen y Cyllid Allanol Cyfun a'r dreth gyngor, cyfraddau chwyddiant cyflogau a chyfraddau chwyddiant eitemau heblaw cyflogau posibl, a galw posibl yn y dyfodol. At ddibenion yr adroddiad hwn dangosir y tybiaethau cyllidebol 'mwyaf tebygol' ar gyfer bwlch ariannu rhagamcanol o £64.0 miliwn dros dymor y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r tybiaethau a'r amcangyfrifon yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n barhaus, felly bydd y bylchau ariannu rhagamcanol yn newid.

Bydd effaith uniongyrchol/cronnol y bwlch ariannu a ragamcanir ar y cyngor a'i wasanaethau yn sylweddol; yn bendant y mwyaf sylweddol yn hanes y cyngor (ee lefel neu ansawdd is o ran darpariaeth gwasanaethau neu ddod â gwasanaethau i ben yn y sefyllfa waethaf). Ond, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, y brif her fydd amddiffyn y gwasanaethau hynny sy'n effeithio ar y bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut y bydd y sefyllfa gyllidebol fwyaf tebygol o £64.0 miliwn yn datblygu dros y flwyddyn nesaf a thros y tair blynedd ganlynol. Bydd angen cyfuniad o arbedion cyllidebol, incwm ychwanegol o gynnydd yn y dreth gyngor 'Band D', defnydd parhaus o bremiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi neu'r defnydd posibl o gronfeydd wrth gefn i bontio'r bylchau ariannu rhagamcanol a nodwyd ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

| **Rhagdybiaethau Cyllidebol (y senario fwyaf tebygol)** | **2025-26 £m** | **2026-27 £m** | **2027-28 £m** | **2028-29 £m** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllidebau ysgolion unigol** | **6.1** | **4.5** | **3.5** | **4.3** |
| **Gofal cymdeithasol** | **25** | **11.2** | **10.9** | **10.6** |
| **Gwasanaethau eraill** | **2.9** | **2.9** | **2.8** | **2.7** |
| **Arall** | **8.5** | **2.1** | **1.2** | **0.1** |
| **CYFANSWM Y PWYSAU AR WASANAETH YN 2025-26 *(y senario fwyaf tebygol)*** | **42.5** | **20.7** | **18.4** | **17.7** |
| | | | | |

| Tybiaethau cyllidol ar gyfer 2025-26: | £m | £m | £m | £m |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid Allanol Cyfun:** | | | | |
| Addasiad i'r sylfaen yn sgil y Cyllid Allanol Cyfun | 1.2 | 0 | 0 | 0 |
| Dyfarniad cyflog athrawon 2024-25 wedi'i drosglwyddo i'r sylfaen | -0.9 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr at bensiwn athrawon yn 2024-25 wedi'i drosglwyddo i'r sylfaen | -3 | 0 | 0 | 0 |
| *Cynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun % (mewn termau real)* | | | | |
| Cynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun £ | -4.4 | -9 | -9.4 | -9.8 |
| **CYFANSWM Y CYNNYDD YN Y CYLLID ALLANOL CYFUN (uwchlaw 2024-25)** | **-7.1** | **-9** | **-9.4** | **-9.8** |
| Cost gyflog uniongyrchol cyflogwyr yswiriant gwladol (tybir ei fod wedi'i ariannu'n llawn) | -4.9 | 0 | 0 | 0 |
| *llai* Defnydd unwaith ac am byth o'r gronfa wrth gefn i ariannu cyllideb flwyddyn flaenorol* | 1.5 | 1.3 | 0 | 0 |
| *llai* addasiad i sylfaen premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi | 2.3 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiad i sylfaen y dreth gyngor | -0.2 | 0 | 0 | 0 |
| **IS-GYFANSWM O'R ADDASIADAU UCHOD** | **-1.3** | **1.3** | **0** | **0** |
| **BWLCH ARIANNU RHAGAMCANOL** | **34.1** | **13** | **9** | **7.9** |
| **BWLCH ARIANNU RHAGAMCANOL CRONNUS** | **64** | | | |